**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: WQ87515

Adam Price AS

12 Ebrill 2023

Annwyl Adam,

Mae'r llythyr hwn mewn ymateb i'ch cwestiwn ysgrifenedig WQ87515: *Pryd mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi'r cynnydd ym mhrisiau tocynnau trên wedi'u rheoleiddio o fis Mawrth ymlaen?* Derbyniwch fy ymddiheuriadau am yr oedi wrth ateb eich cwestiwn.

Ar 22 Chwefror, gosodais ddatganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd yn manylu ar y cynnydd mewn prisiau tocynnau wedi'u rheoleiddio yng Nghymru. Datganiad Ysgrifenedig: Prisiau Tocynnau Trên wedi'u Rheoleiddio 2023 | LLYW.CYMRU

Daeth newidiadau i docynnau i rym ar 5 Mawrth. Mewn blynyddoedd blaenorol mae prisiau tocynnau wedi cynyddu yn unol â chyfradd chwyddiant o'r haf blaenorol, a fyddai wedi bod yn gynnydd o 12.3%. Eleni defnyddiwydd dull gwahanol, gan gapio'r cynnydd ar 5.9%.

Roedd ein setliad cyllidebol gan Lywodraeth y DU, ynghyd â llai o incwm o arian am docynnau wedi'r pandemig, yn golygu ein bod yn wynebu rhai dewisiadau anodd i gynnal gwasanaethau rheilffyrdd. Fodd bynnag, rydym yn parhau â'n buddsoddiad o £800m ar drenau newydd sbon i gynnal gwasanaethau ledled Cymru, gan gynyddu capasiti yn ogystal â gwelliannau i gyfleusterau a chyfforddusrwydd teithwyr.

Yn gywir

**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.